



10 neu fwy o bethau y gallech eu gwneud ar gyfer eich Bedydd nesaf

- **Neiniau/Teidiau Mabwysiadol:** Nodwch rai 'neiniau/teidiau mabwysiadol' o'r gynulleidfa i fod yno, i gynnig cymorth ymarferol a chroeso cynnes.
- **Croeso:** Rhowch falŵns bedydd y tu allan a/neu faner yn dweud 'Croeso i deulu ---'



- **Trefn y gwasanaeth:** defnyddiwch lun ac enw'r plentyn ac annog y gwahoddedigion i fynd â nhw adref i gofio am y gwasanaeth.
- **Cofrestri:** estynnwch y cofrestri a gofynnwch i'r rhieni, rhieni bedydd neu blentyn eu harwyddo. Anogwch deuluoedd i edrych yn ôl ar eu hanes lle bo'n briodol.
- **Enwau:** defnyddiwch enw'r plentyn cymaint â phosibl. Gofynnwch am ystyr yr enw, pam i'r rhieni ddewis yr enw, unrhyw stori neu arwyddocâd.
- **Y symbolau:** defnyddiwch y symbolau i gefnogi'r geiriau, drwy gael pawb yn wlyb, atgoffa pobl bod olew yn cael ei ddefnyddio adeg y coroni, gan droi'n gorfforol wrth adrodd y geiriau 'Yr wyf yn troi at Grist'
- **Cynnwys:** dylech gynnwys cymaint o'r teulu a ffrindiau yn y gwasanaeth ag y gallwch chi – darlenniadau, cerddi, gweddïau, dal y gannwyll, dal y tyweli ac ati.
- **Rhieni bedydd:** dylech werthfawrogi'r Rhieni Bedydd, eu gwahodd i flaen yr eglwys, gwneud ffws ohonyn nhw. Gallwch wneud bathodynau/sticeri'n dweud "Fi yw'r Tad Bedydd"



- **Anrhegion:** rhowch anrheg e.e. Beibl, llofnodwch ef a rhowch gerdyn gyda'r geiriau "gyda chariad gan deulu'r eglwys" a chael y gynulleidfa reolaidd i lofnodi'r cerdyn. Neu rhowch 'botyn o weddïau': gofynnwch i bob person ysgrifennu gweddi fer i'r plentyn ar galon bapur, casglwch nhw i gyd a'u rhoi mewn potyn, gan gau'r caead a'i gyflwyno iddyn nhw ei gadw.
- **Rhowch ganiatâd:** anogwch nhw i fod yn hapus, holwch am eu stori a byddwch yn rhan ohoni - rydych chi nawr yn eu bywydau (a'u lluniau) am byth.
- **Casgliad:** cynigiwch roi 50% o unrhyw gasgliad i elusen o'u dewis.
- **Dathlu:** tecstiwch/trydarwch/e-bostiwch ymlaen llaw i ofyn a allwch chi roi llun o'r gwasanaeth ar Twitter neu ar wefan yr eglwys.

YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES